Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Gradd-brentisiaethau

Tachwedd 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd: **www.senedd.cymru/SeneddESS**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@senedd.cymru**
Twitter: **@ SeneddESS**

**© Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Gradd-brentisiaethau

Tachwedd 2020

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddESS

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Russell George AS**
Ceidwadwyr Cymreig

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Suzy Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Helen Mary Jones AS**
Plaid Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

Roedd Mohammad Asghar AS (a elwid yn Oscar) yn Aelod o'r Pwyllgor yn ystor yr ymchwiliad hwn, ond er tristwch mawr bu farw ar 16 Mehefin 2020.



**Mohammad Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **6**

**1. Cefndir** ........ **8**

Crynodeb ........ 8

Cylch gorchwyl ........ 8

Casglu tystiolaeth ........ 9

**2. Y Cynllun Peilot Gradd-brentisiaethau** ........ **10**

Beth yw gradd-brentisiaeth? ........ 10

Fframweithiau prentisiaethau ........ 10

Carfannau'r Cynllun Peilot ........ 11

Y gwahaniaethau rhwng Gradd-brentisiaethau a Phrentisiaethau eraill ........ 11

Gorgyffwrdd rhwng Prentisiaethau Lefel Uwch a Gradd-brentisiaethau a'r potensial ar gyfer cystadlu ........ 11

Gwahaniaethu Gradd-brentisiaethau oddi wrth Raddau Rhan-amser ........ 13

**3. Fframweithiau** ........ **15**

Awdurdodau Cyhoeddi ........ 15

Diffyg Systemig o ran Capasiti i Ddatblygu a Diweddaru Fframweithiau ........ 15

Datblygu Safon Fframwaith ........ 17

**4. Ehangu'r Gradd-brentisiaethau a Gynigir** ........ **18**

**5. Llwybrau Dilyniant Clir a Mwy o Hyblygrwydd** ........ **19**

**6. Cydlyniant rhanbarthol o gymharu â chwrdd â'r galw gan gyflogwyr** ........ **21**

Ymgysylltiad cyflogwyr ........ 21

**7. Cyllid** ........ **23**

Oedi cyn cael cadarnhad o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ........ 23

Dim sefyllfa gydradd i ddarparwyr prentisiaethau ........ 25

Costau gradd-brentisiaethau – a yw'r model cyllido yn gynaliadwy? ........ 26

Y Model Costau Gweithgareddau .......... 27

Costau Eraill .......... 28

**8. Recriwtio ac Ehangu Mynediad .......... 30**

**9. Ymgysylltu â Dysgwyr a Llais Myfyrwyr .......... 35**

**10. Hyrwyddo a Marchnata Cyfleoedd .......... 36**

**11. Sicrhau ansawdd ac ardystio .......... 38**

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar .......... 41**

**Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .......... 42**

Gwybodaeth ychwanegol .......... 43

# Rhagair y Cadeirydd

## Archwiliodd y Pwyllgor gynnydd cynllun peilot gradd-brentisiaethau Llywodraeth Cymru, a ddechreuodd ym mlwyddyn academaidd 2018/2019, a thrafododd ei botensial at y dyfodol.

Fe wnaeth y pandemig Covid-19 ein rhwystro rhag cyfarfod â Gweinidogion i drafod ein canfyddiadau. Ond mae'n bwysig ein bod ni'n rhannu'r hyn a ddywedodd darparwyr, cyflogwyr a gradd-brentisiaid wrthym, a bod Llywodraeth Cymru wedyn yn rhannu ei bwriadau ar gyfer gradd-brentisiaethau fel rhan o'r cynlluniau adfer yn sgil Covid.

Mae ysgogi'r galw a'r cyflenwad o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer adferiad economaidd yn nod hanfodol i Lywodraeth Cymru, ac mae'r "Ymrwymiad Covid i Gyflogadwyedd a Sgiliau" yn cydnabod bod gradd-brentisiaethau yn rhan o hyn. Barn y Pwyllgor yw y bydd mynediad ehangach i ystod o radd-brentisiaethau yn ymyrraeth bwysig yn yr adferiad economaidd, ac y bydd hefyd yn rhoi profiad gwaith i bobl mewn cyfnod o ddirwasgiad.

Dywed gradd-brentisiaid ei fod yn llwybr pwysig mewn gyrfa, neu'n llwybr ar gyfer cynnydd mewn maes sy'n bodoli eisoes, ac yn ffordd o gael y profiad holl bwysig hwnnw yn y gwaith. Er gwaethaf rhai problemau cychwynnol, roedd profiad y rhai a fu'n rhan o'r cynllun peilot yn ymddangos yn gadarnhaol dros ben, gyda galw sylweddol am gynnig prentisiaeth ehangach ar Lefel 6 ac uwch. Mae'r cynllun peilot wedi'i gyfyngu i ddau faes – digidol, a pheirianneg a gweithgynhyrchu uwch – felly mae prinder cyfleoedd i symud ymlaen ar lefel uwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol neu fusnes a rheolaeth ar hyn o bryd. Yn ogystal ag ehangu ystod y llwybrau gyrfa a gynigiwyd, roedd y Pwyllgor yn pryderu am brinder amrywiaeth yn y carfannau cychwynnol – rydym am weld mwy o ymdrechion yn cael eu gwneud i ehangu mynediad i grwpiau a dangynrychiolir.

Mae yna faterion hefyd i Lywodraeth Cymru eu datrys ynghylch datblygu fframweithiau; mabwysiadu model cyllido cynaliadwy, sy'n dangos gwerth am arian; sicrhau nad yw gradd-brentisiaethau yn cael eu trin fel graddau rhan-amser; a marchnata cyfleoedd yn effeithiol. Mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at fanteision gradd-brentisiaethau sy'n rhan o un Rhaglen Brentisiaeth hyblyg ac ymatebol, lle gall dysgwyr symud i fyny neu i lawr rhwng lefelau i gyflawni eu potensial personol. Edrychwn ymlaen at glywed ymateb Llywodraeth Cymru i'n canfyddiadau.

Russell George AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu safon fframwaith ar gyfer gradd-brentisiaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr nodi: sut mae'r fframwaith yn cwrdd â disgwyliadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer gradd-brentisiaethau; sut y gellir tystiolaethu bod yr oriau hyfforddi yn y gwaith wedi'u gwneud; a'r meini prawf y mae'r datblygwr yn eu gosod ar gyfer cynnwys rhaglen radd yn y fframwaith (i gynnwys y meini prawf hynny sy'n gwahaniaethu'r dyfarniad oddi wrth ddyfarniad rhan-amser). .......... Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru alluogi, ariannu a chefnogi strwythurau neu grwpiau mwy ffurfiol er mwyn i randdeiliaid perthnasol a'r diwydiant ddod ynghyd i ddatblygu ac adnewyddu fframweithiau gradd-brentisiaethau gan ddefnyddio eu harbenigedd manwl yn yr agweddau galwedigaethol a sector. .......... Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dull o benderfynu pa fframweithiau gradd-brentisiaethau i'w datblygu a'u hariannu yn y dyfodol a sut y bydd yn rheoli unrhyw wrthdaro posibl rhwng cydlyniant rhanbarthol, llwybrau cydlynol ar gyfer dysgwyr, a'r galw economaidd. .......... Tudalen 21

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, trwy Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru, ystyried ehangu'r ystod o radd-brentisiaethau sydd ar gael, gan gynnwys cefnogi, ariannu a galluogi datblygiad fframweithiau gradd-brentisiaethau nad ydynt yn cael eu darparu gyda chyllid cyhoeddus, lle mae cyflogwyr yn awyddus i weld hyn yn digwydd. .......... Tudalen 22

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn gwireddu ei hymrwymiad gwreiddiol i roi £20 miliwn i'r cynllun peilot gradd-brentisiaethau dros 3 blynedd; nodi a fydd yn rhoi cyllid ychwanegol i CCAUC i wneud iawn am y £5 miliwn y mae'r Cyngor wedi gorfod ei dynnu oddi wrth flaenoriaethau eraill yn y flwyddyn academaidd hon; nodi a fydd angen i'r cyllid ar gyfer y gradd-brentisiaid sy'n parhau ddod o gymorth grant cyffredinol CCAUC; a nodi ei chynlluniau a'i hamserlenni ar gyfer cytuno ar yr ymrwymiad cyllid ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n cofrestru ar radd-brentisiaethau yn y dyfodol. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gyfiawnhau cadw dau fodel cyllido gwahanol, a rhoi rhesymau dros barhau â'r model caffael ar gyfer dyfarnu contractau i ddarparwyr prentisiaethau; nodi sut mae hyn yn gydnaws â chael

llwybrau dysgu cydlynol o Lefel 2 i Lefel 6 a sut y bydd caffael y ddarpariaeth brentisiaethau newydd yn mynd i'r afael â hyn; a rhoi sicrwydd bod y dull contractiol yn ddibynadwy ac yn effeithiol, gan gynnwys bod gwersi wedi'u dysgu o ddod â phroses gaffael Cymorth Swyddi Cymru i ben. ........................................ Tudalen 26

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder i'r Pwyllgor ar gostau gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau eraill mewn meysydd pwnc tebyg. ........................................ Tudalen 28

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a defnyddio model costio sy'n gyson ar gyfer yr holl ddarpariaethau prentisiaeth o brentisiaethau sylfaen i radd-brentisiaethau ac sy'n adlewyrchu amrywiadau yng nghostau cyflwyno ar draws gwahanol lefelau a phynciau. ........................................ Tudalen 29

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu neu gomisiynu strategaeth ar gyfer ehangu mynediad at radd-brentisiaethau ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. ........................................ Tudalen 33

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd a) yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch sicrhau bod gradd-brentisiaethau yn rhoi ysytriaeth lawn i'r Gymraeg a dwyieithrwydd, a b) yn casglu data digonol am radd-brentisiaethau a gwblhawyd trwy gyfrwng y Gymraeg. ........................................ Tudalen 34

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer hyrwyddo gradd-brentisiaethau sy'n cynnwys allgymorth i athrawon ac ysgolion ar y cyfleoedd a gynigir gan radd-brentisiaethau, a hefyd sicrhau bod y wybodaeth a'r arweiniad o ran gyrfaoedd yn cynnwys gradd-brentisiaethau. .................. Tudalen 37

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno tystysgrif gradd-brentisiaeth, a ddyfernir gan Awdurdod Ardystio Prentisiaethau Cymru, a fyddai'n sicrhau bod y radd-brentisiaeth wedi cwrdd â'r holl ofynion hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith ynghyd â'r gofynion academaidd. Dylai ategu tystysgrif gradd y sefydliad ei hun. ........................................ Tudalen 40

# 1. Cefndir

Yn 2018, lluniodd y Pwyllgor adroddiad ar Brentisiaethau yng Nghymru, ac effaith cyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau treialu Gradd-brentisiaethau hyd at Lefel 6. Archwiliodd yr ymchwiliad hwn weithrediad y cynllun peilot, a chyfeiriad a photensial Gradd-brentisiaethau yn y dyfodol.

## Crynodeb

**1.** Ariannodd Llywodraeth Cymru y gradd-brentisiaethau cyntaf yn y flwyddyn academaidd 2018/19. Mae wedi dyrannu £20 miliwn i gynllun peilot tair blynedd, sy'n golygu bod recriwtio wedi parhau yn 2019/20 ac y dylai barhau ar gyfer 2020/21. Yn 2018/19, sef blwyddyn gyntaf y gradd-brentisiaethau yng Nghymru, ymunodd 155 o brentisiaid gradd o tua 60 o gyflogwyr. Ar gyfer 2019/20, roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi dyrannu 585 o leoedd newydd a ariennir. Nid yw'r ffigurau recriwtio ar gyfer 2020/21 ar gael eto. Mae CCAUC yn monitro'r rhaglen beilot.

**2.** Mae gradd-brentisiaid yn cael eu cofrestru ar "fframwaith" gradd-brentisiaeth sy'n cynnwys pecyn o hyfforddiant yn y gwaith wedi'i gyfuno ag astudiaeth ar gyfer gradd. Ar hyn o bryd mae dau fframwaith:

- Digidol, a
- Pheirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch.

**3.** Ni chyhoeddwyd unrhyw gynlluniau ar gyfer rhagor o fframweithiau.

## Cylch gorchwyl

**4.** Dyma'r agweddau ar radd-brentisiaethau y cytunodd y Pwyllgor i ymchwilio iddynt, eu trafod, a cheisio gwybodaeth amdanynt:

- Y rhesymeg sy'n sail i radd-brentisiaethau
- Y broses a'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo cynigion gan ddarparwyr i ddarparu gradd-brentisiaethau

- Y galw gan gyflogwyr a dysgwyr am y fframweithiau cyfredol, neu unrhyw alw am fframweithiau ychwanegol, a sut mae'n cael ei reoli
- Recriwtio prentisiaid gradd a nodweddion personol carfan 2018/19 a charfan 2019/20 hyd yn hyn er mwyn gwerthuso i ba raddau y maent yn adlewyrchu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch, ac uchelgeisiau cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau
- Ymgysylltu cyflogwyr a phroffil y cyflogwyr sy'n defnyddio'r rhaglen radd-brentisiaethau, gan gynnwys, os yn bosibl, y gwasgariad daearyddol
- Y model ar gyfer cyllido gradd-brentisiaethau, lefel y cyllido yn gyffredinol a'r ymrwymiad sydd ei angen o ran cyllid i sicrhau y gall prentisiaid sydd eisoes ar y cynllun peilot tair blynedd gwblhau eu haddysg
- Barn gynnar gan gyflogwyr, darparwyr addysg a dysgwyr am ba mor dda y mae gradd-brentisiaethau yn gweithio a'r hyn y gellir ei ddysgu o'r cyflwyniad ohonynt
- Barn am ddull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru ynghylch gradd-brentisiaethau, a'r farn am eu cyflwyno, am eu heffaith ar brentisiaid sy'n bwrw prentisiaethau nad ydynt yn raddau
- Barn am gyfeiriad a photensial gradd-brentisiaethau yn y dyfodol.

## Casglu tystiolaeth

**5.** Cafodd y Pwyllgor 24 ymateb i'w ymgynghoriad gan amryw sefydliadau yn y sectorau addysg bellach ac uwch a chan gyflogwyr – mae'r rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig yn Atodiad B. Cafwyd tystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd ar 27 Chwefror a 12 Mawrth. Yna, roedd disgwyl i'r Gweinidog Addysg a Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru fod yn bresennol mewn Pwyllgor ar 22 Ebrill 2020 ond nid oedd modd gwneud hynny oherwydd y pandemig Covid-19. Rhestrir y sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad A. Ymwelodd y Pwyllgor â Champws Gwyddor Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghasnewydd ar 4 Mawrth i gwrdd â gradd-brentisiaid. Cyfarfu tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd hefyd ag ystod o gyflogwyr, darparwyr addysg a gradd-brentisiaid ledled Cymru, a rhannodd ei ganfyddiadau â'r Aelodau. Bu'r adborth dienw gan y prentisiaid eu hunain o gymorth mawr gyda'r adroddiad hwn, ac mae'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gynorthwyo'r ymchwiliad.

# 2. Y Cynllun Peilot Gradd-brentisiaethau

## Beth yw gradd-brentisiaeth?

**6.** Yng Nghymru mae prentisiaeth yn swydd â thâl sy'n ymgorffori dysgu ffurfiol a dysgu strwythuredig yn seiliedig ar waith sy'n cael ei wneud yn y swydd a'r tu allan iddi. Mewn gradd-brentisiaeth mae'r dysgu seiliedig ar waith yn cael ei wneud ar lefel cwrs gradd sy'n cael ei ddatblygu'n benodol ar gyfer y radd-brentisiaeth a'i ddyfarnu gan brifysgol.

**7.** Dywedodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sy'n sicrhau ansawdd addysg uwch yng Nghymru, fod yn rhaid i radd-brentisiaethau, yn anad dim, fod yn swydd sy'n gofyn am ddysgu wedi'i integreiddio â gwaith. Daw'r gweithle yn lle i ddatblygu a chynhyrchu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac ymddygiadau proffesiynol yn hytrach na dim ond lle i gymhwyso'r pethau hynny. Mae hyn yn golygu y dylai prentisiaethau fod yn fwy na dim ond cael swydd wrth astudio cymhwyster rhan-amser – rhaid i'r hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith fod yn becyn unedig a rhaid i'r dysgu ddigwydd yn y swydd hefyd.

## Fframweithiau prentisiaethau

**8.** Er mwyn cyflawni'r pecyn unedig hwn, caiff y prentisiaethau eu cyflwyno drwy "fframweithiau". Yng Nghymru, rhaid i'r fframweithiau hyn gydymffurfio â 'Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru', a chynnwys cymhwysedd galwedigaethol yn ogystal â chymwysterau gwybodaeth dechnegol (a geir ar gwrs gradd israddedig).

**9.** Ar ôl eu datblygu, mae fframweithiau'n cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan "awdurdod cyhoeddi". Cyn 2020, y Cyngor Sgiliau Sector oedd hwn gan amlaf. O 2020 ymlaen, Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod cyhoeddi ar gyfer fframweithiau prentisiaeth.

**10.** Ar gyfer y cynllun peilot, comisiynodd a datblygodd Llywodraeth Cymru ddau fframwaith gradd-brentisiaeth:

- **Gradd-brentisiaeth Ddigidol** (wedi'i chymeradwyo gan gorff o'r enw Instructus); a
- **Gradd-brentisiaeth Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch** (wedi'i chymeradwyo gan gorff o'r enw SEMTA, a elwir bellach yn Enginuity).

## Carfannau'r Cynllun Peilot

**11.** O dan y cynllun peilot, recriwtiwyd y garfan gyntaf ym mlwyddyn academaidd 2018/19, yr ail garfan yn 2019/20 a chafodd y drydedd garfan, a'r olaf hyd yma, ei recriwtio yn 2020/21. Recriwtiwyd tua 155 o brentisiaid yn 2018/19 ac ymrwymodd CCAUC i ariannu 585 o brentisiaid newydd yn 2019/20 (310 ar y radd-brentisiaeth ddigidol a 275 ar y radd-brentisiaeth peirianneg a gweithgynhyrchu uwch).

## Y gwahaniaethau rhwng Gradd-brentisiaethau a Phrentisiaethau eraill

**12.** Yng Nghymru dim ond yr wyth prifysgol a'r Brifysgol Agored a gaiff ddyfarnu graddau cyntaf sy'n golygu bod yn rhaid i brifysgolion fod â rhan yn y broses o ddatblygu a darparu gradd-brentisiaethau. Mae hyn yn golygu bod gradd-brentisiaid wedi ymrestru mewn prifysgol (hyd yn oed os ydyn nhw'n treulio peth amser yn gwneud hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith mewn coleg neu gorff hyfforddi arbenigol arall). Ar yr un pryd ag astudio ar gyfer y radd, mae'n ofynnol i brentisiaid wneud 500 awr o hyfforddiant mewn swydd.

**13.** Mae prentisiaid ar fathau eraill o brentisiaethau nad ydyn nhw'n arwain at radd yng Nghymru yn cael tystysgrif prentisiaeth i ddangos eu bod wedi cwblhau fframwaith. Ar hyn o bryd ni fydd gradd-brentisiaid yn cael tystysgrif o'r fath; yn hytrach byddant yn cael eu tystysgrif gradd gan y brifysgol.

**14.** Disgwylir i radd-brentisiaid gwblhau eu fframwaith mewn dim llai na 3 blynedd ac mae CCAUC fel arfer yn disgwyl iddyn nhw ei gwblhau o fewn 5 mlynedd. Nid yw gradd-brentisiaid yn talu unrhyw ffioedd, gan fod CCAUC yn ariannu pob prentisiaeth hyd at £27,000 pro rata dros gyfnod y brentisiaeth, a delir yn uniongyrchol i brifysgol y prentis. Mae'r lefel hon o gyllid yn cyfateb i'r ffioedd dysgu a godir ar israddedigion amser llawn am radd tair blynedd.

## Gorgyffwrdd rhwng Prentisiaethau Lefel Uwch a Gradd-brentisiaethau a'r potensial ar gyfer cystadlu

**15.** Gan fod blynyddoedd cyntaf ac ail Prentisiaethau Uwch a Gradd-brentisiaethau ar yr un lefel o her (Lefelau 4 a 5 y CQFW), gallai darpar brentisiaid ddewis astudio Prentisiaeth Uwch ac yna gwneud Gradd-brentisiaeth lawn drwy gwblhau trydedd flwyddyn. Mae data CCAUC yn dangos bod 70 o radd-brentisiaid wedi cychwyn ym Mlwyddyn 2, a 35 ym mlwyddyn 3 yn hanner cyntaf

2019/20.[1] Yn yr un modd, gallent benderfynu peidio â gwneud Prentisiaeth Uwch o gwbl a gwneud Gradd-brentisiaeth yn lle hynny. Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn tynnu sylw at dystiolaeth lafar bod Prentisiaid Uwch wedi cael eu targedu gan brifysgolion i ddechrau ar ail flwyddyn Gradd-brentisiaeth. Dywedodd Colegau Cymru:

> "some Further Education institutions report already seeing arbitrary competition between the network of Degree apprenticeship providers (HEIs) and the WBL network where the emergence of Degree apprenticeships risk duplicating and competing with existing Higher apprenticeship programmes."[2]

**16.** Ar yr un pryd. roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau bod gradd-brentisiaethau yn darparu llwybr dilyniant yn y gwaith i'r rhai sy'n dymuno ennill gradd, gan roi mwy o ddewis i ddysgwyr.

**17.** Nid oedd yr Athro Julie Lydon o Brifysgolion Cymru o'r farn bod cystadleuaeth yn cael ei chreu. Dywedodd fel a ganlyn: "there's space for us to have significant higher degree-level work sitting alongside the current higher level apprenticeships, and them complementing each other and working together."[3] Tynnodd yr Athro Lydon sylw at yr angen am gydweithredu ac i gadw llwybrau ar agor i ddiwallu anghenion dysgwyr, ond nad oedd y sector yn gallu ateb y galw. Dywedodd CCAUC hefyd fod modelau cyllido gwahanol ar gyfer Prentisiaethau Uwch a Gradd-brentisiaethau, a bod gan hynny oblygiadau i ddarparwyr, ac y byddai gwell aliniad rhwng y naill a'r llall hefyd yn helpu i ddiwallu anghenion cyflogwyr a phrentisiaid.[4] Dywedodd Dr David Blaney o CCAUC:

> "We didn't want degree apprenticeships to be another source of friction between FE and HE providers—we wanted them to work together. So, that's why we built it into our requirements. But I think Julie's right: there's massive demand out there. So, at the moment, this is not a large range of providers chasing a small pot; there's plenty there if we can get an established mainstreamed approach to it."[5]

---

[1] Tystiolaeth ysgrifenedig

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig

[3] Paragraff 86, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[4] Paragraff 97, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[5] Paragraff 94, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

## Gwahaniaethu Gradd-brentisiaethau oddi wrth Raddau Rhan-amser

**18.** Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn dweud bod yn rhaid i radd-brentisiaethau gael eu cyfansoddi yn y lle cyntaf fel swyddi sy'n gofyn am hyfforddiant wedi'i integreiddio i waith a lle mae'r gweithle ei hun yn lle dysgu. Felly mae'n rhaid i'r ymwneud rhwng prifysgolion a chyflogwyr a'r cysylltiadau rhyngddyn nhw fod yn gyson, yn gadarn ac yn rhan annatod o'r brentisiaeth. Mae fframweithiau prentisiaeth fel arfer yn pennu nifer yr oriau o hyfforddiant yn y swydd y mae'n rhaid eu cyflawni a bod yn rhaid i'r cymwysterau arwain at gymhwysedd technegol mewn galwedigaeth.

**19.** Bu'r Pwyllgor yn trafod gyda darparwyr addysg, cyflogwyr a'r gradd-brentisiaid eu hunain i ba raddau y mae gradd-brentisiaethau yn wahanol i raddau rhan-amser. Cymysg oedd y dystiolaeth yn ôl canfyddiadau'r Pwyllgor.

**20.** Yn ystod ymweliad y Pwyllgor â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, esboniodd y corff ei fod yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng y ddau. Dywedodd Alison Adams, Pennaeth Talent ar y Campws Gwyddor Data, a oedd wedi gwneud graddau rhan-amser ei hun, ei fod yn brofiad gwahanol iawn, a bod astudio ar gwrs gradd Baglor yn 'well llwybr'. I'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fel cyflogwr, y manteision oedd gweithio ochr yn ochr â'r darparwr i gyd-ddylunio'r radd, y cysylltiadau â'r prosiectau gwaith, a'r ffaith bod y dysgu wedi'i wreiddio yn y gweithle. Roedd hyn yn caniatáu i'r radd gael ei chysylltu'n uniongyrchol â'r gweithle, yn hytrach na'r gwaith a bod yr hyn oedd yn cael ei astudio yn teimlo'n ddigyswllt.

**21.** Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r gradd-brentisiaid y bu'r Pwyllgor yn ymwneud â hwy yn ystod yr ymchwiliad o'r un farn â phrentisiaid y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch cyd-ddylunio dwy ffordd ac ymgorffori dysgu yn y gweithle. Casglwyd tystiolaeth ar wahân gan y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion pan fu'n ymweld â nifer o ddarparwyr. Canfu'r tîm fod rhai prentisiaid yn teimlo nad oedd gan yr hyn yr oeddent yn ei ddysgu yn y brifysgol gysylltiad eto â'r hyn yr oeddent yn ei wneud neu'n dysgu yn y gwaith. Dywedodd rhai gradd-brentisiaid eraill hefyd na chawsant fawr o hyfforddiant yn y gwaith a oedd yn fwriadol gysylltiedig â'r cwrs. Teimlai rhai y gellid gwella'r cynllun trwy gysylltu'r dysgu rhwng y Brifysgol a'r cyflogwr:

> "Rwy'n credu bod y radd sy'n cyfrannu at y swydd a'r hyfforddiant gan y cyflogwr yn hynod bwysig, oherwydd er ein bod ni'n dysgu pethau yn y Brifysgol, mae rhoi'r addysg honno yn ei chyd-destun yn y swydd yn

beth cwbl wahanol; felly ie, gallen nhw wella yn bendant yn hynny o beth."[6]

**22.** Hefyd, dywedodd Ben Kinross o Gymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid wrth y Pwyllgor fod adborth gan brentisiaid yn Lloegr a'r Alban yn tynnu sylw at risg nad oedd cyflogwyr yn cymryd agweddau addysgol y gradd-brentisiaethau o ddifrif, ac nad oedd pob prentis yn cael yr elfen hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.[7]

**23.** Mae'n amlwg bod darlun cymysg ynglŷn â'r cydlyniant rhwng datblygu gwybodaeth a dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru werthuso rôl cyflogwyr yn ofalus, graddau'r integreiddio a chyd-ddylunio cyrsiau, a nodi unrhyw feysydd lle nad yw'r radd-brentisiaeth wedi'i hintegreiddio'n ddigonol nac yn ychwanegu gwerth. Mae'n bwysig deall pa mor eang yw profiadau llai calonogol y prentisiaid o fewn y cynllun peilot gradd-brentisiaeth.

**24.** Daeth fforddiadwyedd i'r amlwg fel mater allweddol arall i brentisiaid ac yn wahaniaeth allweddol rhwng gradd-brentisiaethau a graddau rhan-amser. Dywedodd sawl un o'r radd-brentisiaid y clywodd y Pwyllgor ganddynt y byddent wedi methu cymryd y llwybr hwn i addysg uwch, neu'n amharod i'w gymryd, heb y cymorth ariannol a gynigir gan radd-brentisiaethau, ac roedd ymrwymiadau ariannol yn ffactor yn y penderfyniad a'r gallu i ymgymryd ag astudiaeth ar lefel gradd: "Mae gen i forgais a gwraig", "Rwy'n hŷn, ac mae angen sefydlogrwydd ariannol arnaf". Dywedodd un arall fod y radd-brentisiaeth yn cynnig gwell cydbwysedd o ran gweithio, ennill a dysgu.

**25.** Pan ofynnwyd iddynt beth fyddent wedi'i wneud pe na bai modd iddynt wneud gradd-brentisiaeth, dywedodd rhai prentisiaid y byddent wedi defnyddio cyllid myfyrwyr, wedi dilyn llwybr y Brifysgol Agored, neu wedi dilyn cyrsiau am ddim neu ardystiad heblaw gradd er mwyn parhau i weithio ac astudio. Fodd bynnag, dywedodd eraill y byddent yn parhau yn y swydd yr oeddent ynddi, hyd yn oed os nad oeddent yn cael boddhad ynddi, ac yn gweld hyn fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar eu cyfle i symud ymlaen.

**26.** Dywedodd Peter Fullerton, Dirprwy Gyfarwyddwr y Campws Gwyddor Data yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, efallai na fydd y llwybr graddedig traddodiadol yn agored i bobl sy'n awyddus i wneud prentisiaethau nac ychwaith yn apelio iddynt – mae'n llwybr arall.

[6] Tystiolaeth a gasglwyd gan y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion (ymatebion dienw)

[7] Paragraffau 82-91, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

# 3. Fframweithiau

## Awdurdodau Cyhoeddi

**27.** Ar adeg cynnal yr ymchwiliad, gallai cyrff sy'n gweithredu fel Awdurdodau Dyroddi ddatblygu'r fframwaith yn ogystal â'i ddyroddi (ei gymeradwyo). Roedd Llywodraeth Cymru yn pryderu fod hyn yn golygu na ellir "dangos eu bod bob amser yn ddiduedd, mae potensial i'r naill gorff neu'r llall gael mantais a gallai hynny effeithio ar yr ansawdd."[8] Yn dilyn ymgynghori ar newid y system, Llywodraeth Cymru bellach yw'r awdurdod cyhoeddi – gan greu gwahaniad rhwng datblygu fframwaith a'i gymeradwyo.

## Diffyg Systemig o ran Capasiti i Ddatblygu a Diweddaru Fframweithiau

**28.** Y sbardun arall ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "Rôl yr Awdurdod Cyhoeddi o ran Fframweithiau Prentisiaeth"[9] oedd y byddai Cynghorau Sgiliau Sector fel arfer wedi cael eu comisiynu i ddatblygu'r fframweithiau, ond ers colli eu rôl yn system brentisiaethau Lloegr mae eu capasiti wedi dirywio'n ddifrifol. Mae hwn yn fater systemig sy'n cael effaith ar yr holl system brentisiaethau yng Nghymru a chafodd ei godi yn adroddiad y Pwyllgor ym mis Hydref 2019 ar y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.[10] Dywedodd Iestyn Davies o Golegau Cymru wrth y Pwyllgor fod colli capasiti wedi arwain at ormod o ddibyniaeth ar 'ewyllys da' cyflogwyr i gyfrannu at ddatblygu fframweithiau.[11]

**29.** Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig CCAUC[12] mai'r rheswm am yr oedi wrth lansio'r cynllun peilot gradd-brentisiaethau llawn oedd yr erydiad yng ngwybodaeth sgiliau'r sector a llai o gapasiti. Dywedodd y bu'n rhaid comisiynu ymgynghorydd allanol i ddatblygu'r ddau fframwaith ar ôl i'r Cynghorau Sgiliau Sector, yn ei farn ef, fethu ag ymgysylltu'n ddigonol:

> "As a consequence, the Engineering and Advanced Manufacturing (Wales) Framework was no issued until 1 August 2019, year 2 of the pilot project 2019/20. This had an impact on the Higher Education sector's capacity to respond in a timely manner, and greater reliance on

[8] https://llyw.cymru/rol-yr-awdurdod-cyhoeddi-o-ran-fframweithiau-prentisiaeth?

[9] https://llyw.cymru/rol-yr-awdurdod-cyhoeddi-o-ran-fframweithiau-prentisiaeth?

[10] https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld12798/cr-ld12798%20-w.pdf

[11] Paragraff 207, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[12] Tystiolaeth ysgrifenedig

existing relationships with large employers upskilling existing employees in 2018/19."[13]

**30.** Roedd Airbus yn galw'r ddibyniaeth hon ar ymgynghorydd allanol, nad oedd ag unrhyw gysylltiad hirdymor â Chymru, yn risg sylweddol i reoli gwybodaeth yn y tymor hir.[14] Dywedodd fod tranc y Cynghorau Sgiliau Sector yn golygu bod yn rhaid dod o hyd i ddewis arall credadwy yn gyflym ar gyfer datblygu a rheoli datblygiad fframweithiau i sicrhau bod corff gweinyddol yng Nghymru yn berchen ar y sylfaen wybodaeth sydd ei hangen i ddatblygu'r fframweithiau hyn ac yn ei diogelu.[15] Dywedodd Gavin Jones o Airbus wrth y Pwyllgor nad oedd gwybodaeth yn cael ei chadw yng Nghymru a bod cyfle i gau'r bwlch hwnnw.[16]

**31.** Soniodd Gavin Jones hefyd am y berthynas dda â darparwyr lleol, a phan ofynnwyd iddo am ddylunio cyrsiau dywedodd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn 'ymatebol iawn' pan oedd bylchau bach i fynd i'r afael â hwy o ran cynnwys y cyrsiau gradd.[17]

**32.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd CCAUC ei fod yn hyderus bod gan brifysgolion y sgiliau i ddatblygu'r fframweithiau, ac mai'r broblem oedd bod system deddfwriaethol a rheoliadol presennol Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sgiliau Sector fod yn rhan o'r broses.[18] Pwysleisiodd Prifysgolion Cymru fod gan Brifysgolion a Cholegau Addysg Bellach lawer iawn o brofiad o weithio gyda chyflogwyr a chyrff proffesiynol, ac y gallent fwy na thebyg, gyda'i gilydd ac yn amodol ar gymeradwyaeth, gael ymateb mwy priodol, cyflymach, mewn da bryd sy'n cynnal yr ansawdd.[19]

**33.** Dywedodd Prifysgolion Cymru fod cwestiwn a oedd gan Lywodraeth Cymru ddigon o arbenigedd i gymeradwyo fframweithiau[20] a mynegodd rai amheuon ynghylch rôl Llywodraeth Cymru fel awdurdod cyhoeddi. Dywedodd yr Athro Julie Lydon:

---

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig

[16] Paragraff 94, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[17] Paragraff 164, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[18] Paragraff 32, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[19] Paragraff 61, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[20] Paragraff 55, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

> "With the greatest of respect, I think the role of Government is to set the expectations. I'm not sure the role of Government is to be involved in delivery."[21]

**34.** Dywedodd CCAUC y gallai grwpiau clwstwr sy'n amlygu ymhlith cyflogwyr gael eu datblygu i greu ffocws o arbenigedd yn y sector. Yn benodol, byddai'n cefnogi rôl ddatblygol Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru fel Bwrdd a arweinir gan gyflogwyr mewn datblygu polisi prentisiaethau, adolygu Fframweithiau, blaenoriaethau a datblygu. Dywedodd CCAUC y byddai hefyd yn ddefnyddiol ystyried rôl y prentisiaid yn y maes hwn.[22]

## Datblygu Safon Fframwaith

**35.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu safon fframwaith sy'n mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch datblygu fframwaith, ac i sicrhau bod fframweithiau'n cyflwyno rhaglen gydlynol ac integredig o ddysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith sy'n hollol wahanol i radd rhan-amser.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu safon fframwaith ar gyfer gradd-brentisiaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr nodi: sut mae'r fframwaith yn cwrdd â disgwyliadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer gradd-brentisiaethau; sut y gellir tystiolaethu bod yr oriau hyfforddi yn y gwaith wedi'u gwneud; a'r meini prawf y mae'r datblygwr yn eu gosod ar gyfer cynnwys rhaglen radd yn y fframwaith (i gynnwys y meini prawf hynny sy'n gwahaniaethu'r dyfarniad oddi wrth ddyfarniad rhan-amser).

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru alluogi, ariannu a chefnogi strwythurau neu grwpiau mwy ffurfiol er mwyn i randdeiliaid perthnasol a'r diwydiant ddod ynghyd i ddatblygu ac adnewyddu fframweithiau gradd-brentisiaethau gan ddefnyddio eu harbenigedd manwl yn yr agweddau galwedigaethol a sector.

[21] Paragraff 49, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig

# 4. Ehangu'r Gradd-brentisiaethau a Gynigir

**36.** Roedd cefnogaeth glir ac eang i ehangu'r ystod o radd-brentisiaethau a gynigir. Dywedodd Estyn y byddai'n helpu "i feithrin hygrededd o ran y llwybr prentisiaethau".[23] Dywedodd yr Athro Julie Lydon o Brifysgolion Cymru fod y sector Addysg Uwch yn awyddus i ehangu'r gradd-brentisiaethau a gynigir: "I think the frustration for all of us is that we want to do more and we want it to be wider."[24]

**37.** Tynnodd sawl ymatebydd, gan gynnwys Estyn, CCAUC, Airbus a Phrifysgolion Cymru, sylw at alw nas diwallwyd am brentisiaethau mewn meysydd eraill ac y dylid ehangu ystod y fframweithiau. Er enghraifft, roedd y Sefydliad Rheolaeth Siartredig yn dadlau dros brentisiaeth ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth, gan ddweud y byddai'n cael effaith gref ar gynhyrchiant yng Nghymru.[25]

**38.** Tynnodd David Blaney o CCAUC sylw at y galw mawr heb ei ddiwallu[26] gan bobl a oedd wedi cwblhau prentisiaethau ar lefelau is nad oedd ag 'unman i fynd ar hyn o bryd', a dangosodd Kieron Rees o Brifysgolion Cymru y pwynt hwn ymhellach:

> "Eighty-seven per cent of those currently studying level 4 and 5 apprenticeships in Wales are studying either health and social care or business and management. So, for 87 per cent of current higher apprentices, there's nowhere to go."[27]

---

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig

[24] Paragraff 24, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig

[26] Paragraff 45, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[27] Paragraff 47, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

# 5. Llwybrau Dilyniant Clir a Mwy o Hyblygrwydd

**39.** Dywedodd CCAUC y dylai gradd-brentisiaethau alinio â'r rhaglen brentisiaeth ehangach. Dywedodd ei bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r nod hwnnw, ond y byddai'n croesawu eglurder ar barhad y cyllid a'r fethodoleg i sicrhau ymateb wedi'i gynllunio sy'n gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus.[28]

**40.** Roedd y dystiolaeth yn cyfeirio at yr angen am lwybrau dilyniant clir o fewn y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru, gyda'r hyblygrwydd i ganiatáu i brentisiaid allu symud i fyny i lefel gradd-brentisiaeth ond hefyd i'r cyfeiriad arall pe byddai angen. Yn ôl yr Athro Julie Lydon o Brifysgolion Cymru: "I think all of us would expect there to be, if you like, a ladder, so actually everyone understands the ways in which you can move around in terms of your own personal development, and employers can understand where they'd like to go." Yn ôl Matthew Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Dysgu yn Seiliedig ar Waith, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr:

> "The danger you've got, you see, with somebody who might go straight onto a degree apprenticeship programme who might have been perhaps better to go through the higher apprenticeship ladder is that there's no natural exit point for that person if they don't go the full way to a degree apprenticeship, for example."[29]

**41.** Pwysleisiodd Rhys Daniels o'r Brifysgol Agored (sy'n gweithredu gradd-brentisiaethau ym mhob un o'r bedair gwlad) bwysigrwydd llwybrau clir:

> "a really important point for us is that we feel that there should be clear pathways for apprentices from level 2 to level 7: visual pathways, where they can see where they can enter the apprenticeship system and what opportunities they've got longer term to build their skills."[30]

**42.** Ymhelaethodd Rhys Daniels ar fateision mwy o hyblygrwydd yn y system:

> "…it's important to bear in mind that industries change … there should be points at which apprentices can step out and almost take in modules from other apprenticeships as well. It's important to have that system, … that clear pathway to see what the long-term development

[28] Tystiolaeth ysgrifenedig

[29] Paragraff 229, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[30] Paragraff 20, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

> opportunities are, but also where it's flexible enough for people to move in between to help their skills."[31]

**43.** Dywedodd CCAUC y gallai ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Ddiwygiedig fod yn ffordd o sicrhau mwy o integreiddio a dilyniant i bobl ifanc. Er y bydd yr ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn mynd rhagddo, nid eir rhagddi â'r ddeddfwriaeth bellach cyn etholiad y Senedd yn 2021. Mae CCAUC hefyd wedi datgan bod disgwyl i sefydliadau a ariennir gan CCAUC roi cyfleoedd i gryfhau'r llwybrau o brentisiaethau lefel is i radd-brentisiaethau.

[31] Paragraff 20, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

# 6. Cydlyniant rhanbarthol o gymharu â chwrdd â'r galw gan gyflogwyr

**44.** Pwysleisiodd tystiolaeth ysgrifenedig CCAUC hefyd bod angen datrys gwrthdaro posibl yn y cyfeiriad polisi a roddwyd y dylai'r ddarpariaeth brentisiaeth gael ei harwain gan y galw o du cyflogwyr, yn erbyn y gofyniad gan Lywodraeth Cymru i CCAUC roi sylw i gydlyniant rhanbarthol ac ystyriaethau daearyddol. Dywedodd CCAUC fod blaenoriaethu gofynion cyflogwyr dros gydlyniant rhanbarthol yn cyfyngu ar y gallu i Addysg Uwch ac Addysg Bellach gydweithredu i ddatblygu llwybrau dilyniant, a'r gallu i ddylanwadu ar ledaeniad daearyddol y ddarpariaeth. Dywedodd y bydd angen ystyried newid yn y polisi ar weithgaredd a ariennir yn greiddiol, a'i effaith ar drefniadau masnachfraint a chonsortia.[32]

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dull o benderfynu pa fframweithiau gradd-brentisiaethau i'w datblygu a'u hariannu yn y dyfodol a sut y bydd yn rheoli unrhyw wrthdaro posibl rhwng cydlyniant rhanbarthol, llwybrau cydlynol ar gyfer dysgwyr, a'r galw economaidd.

## Ymgysylltiad cyflogwyr

**45.** Dangosodd tystiolaeth gan y sector busnes awydd i ymgysylltu â strategaeth y dyfodol ar gyfer gradd-brentisiaethau. Pwysleisiodd Newport Water Fab[33] a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol eu gwerth fel rhan o lwybrau cynnydd mewn gyrfa yn eu sector, a galwodd CITB Cymru[34] am ymgynghoriad ar sut orau y gallent fod o fudd i'r sector adeiladu. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yr hoffai weld llawer mwy o ymgysylltiad â chyflogwyr.[35] Dywedodd Rhys Daniels o'r Brifysgol Agored y gellid gwneud darn mawr o gydweithredu yng Nghymru ar lefel ranbarthol a chenedlaethol rhwng cyflogwyr a gwahanol fathau o ddarparwyr, bod llawer o arbenigedd yn bodoli eisoes o ran ymgysylltu â chyflogwyr a'i bod yn bwysig peidio ag 'ailddyfeisio'r olwyn'.[36] Roedd yn cefnogi'r syniad o ffurfio gweithgorau cyflogwyr i geisio dylanwadu ar ddyfodol prentisiaethau yng Nghymru a chyfrannu i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.[37]

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig

[33] Tystiolaeth ysgrifenedig

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig

[36] Paragraff 19, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[37] Paragraff 20, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

**46.** Cefnogodd Milly Blenkin o GoCompare fwy o ymgysylltiad mewn consortia, gan dynnu sylw at fylchau sgiliau pwysig heb eu diwallu mewn sectorau fel technoleg arian:

> "I'd really welcome a consortium, actually, of employers looking at the different frameworks on offer, because I think there's so much benefit added then. Ultimately, they just need to reflect the skills gap in order to make it beneficial for the Welsh economy, for employers and ultimately for the career progression of the learners involved. It's a lovely thing to be able to offer individuals, but, unless the gap in the market is there, ultimately there's no point.
>
> "I'd just echo that I sit on an employers' board for financial services at Cardiff and Vale College. The fintech scene in south Wales is growing constantly—Monzo and Starling Bank joining us now as well. It's a meet-up to talk about financial services. The skills gap in tech, in cyber and in data comes up every single month without fail. So, I think, yes, as long as it's industry led, that's the approach that should be taken."

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, trwy Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru, ystyried ehangu'r ystod o radd-brentisiaethau sydd ar gael, gan gynnwys cefnogi, ariannu a galluogi datblygiad fframweithiau gradd-brentisiaethau nad ydynt yn cael eu darparu gyda chyllid cyhoeddus, lle mae cyflogwyr yn awyddus i weld hyn yn digwydd.

# 7. Cyllid

## Oedi cyn cael cadarnhad o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru

**47.** Cyfeiriodd CCAUC a rhanddeiliaid eraill ym maes addysg uwch at effeithiau negyddol a ddeilliodd o'r oedi cyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r cyllid llawn ar gyfer y cynllun peilot a rhoi cyfeiriad polisi i CCAUC. Roedd yr effeithiau negyddol yn cynnwys peidio â chael digon o amser i hyrwyddo prentisiaethau yn ddigonol i ddysgwyr a chyflogwyr, a chyflogwyr heb gael digon o amser i gynnwys y prentisiaethau yn eu cyllidebau a'u rhagolygon dysgu a datblygu. Dywedodd yr Athro Julie Lydon o Brifysgolion Cymru wrth y Pwyllgor fod y fframiau amser yn heriol,[38] ac roedd tystiolaeth ysgrifenedig CCAUC yn esbonio'r effaith:

> "The two-year lead in to degree apprenticeships and the delayed start had a negative impact on the programme's reputation initially. HEFCW's interest in progressing the Apprenticeship agenda in Wales and delivering against its Remit Letter (28 March 2018) was constrained by the timing of the Welsh Government policy steer and the funding, that was not confirmed until February 2019, in HEFCW's Remit Letter. Further, HEFCW did not receive clarification from Welsh Government until 2 March 2019 on whether the pilot budget of £20m was to cover continuation funding of apprentices who had started in the pilot phase into the academic year 2021/22 and beyond as this would impact on the number of apprenticeships available in the pilot phase."[39]

**48.** Tynnwyd sylw hefyd at ddiffyg unrhyw ymrwymiad i gyllid yn y dyfodol y tu hwnt i Flwyddyn 3. Ar adeg ein hymchwiliad nid oedd unrhyw ymrwymiad cyhoeddus i barhau â'r cynllun peilot y tu hwnt i flwyddyn academaidd 2020/21, ac nid oedd disgwyl i Lywodraeth Cymru lunio adroddiad am y gwerthusiad o'r cynllun peilot tan fis Ebrill 2021. Dywedodd CCAUC y byddai'n ddefnyddiol cytuno ar flwyddyn ychwanegol o arian peilot ar gyfer 2021/22 cyn gwerthusiad Llywodraeth Cymru er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ac i liniaru'r risg o fwlch posibl wrth recriwtio gradd-brentisiaid newydd. Byddai hyn yn rhoi hyder i gyflogwyr yn sefydlogrwydd y cynllun er mwyn gallu blaengynllunio.

[38] Paragraff 24, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig

**49.** Dywedodd Dr David Blaney o CCAUC wrth y Pwyllgor ar y pryd y byddai datrys y mater cyllido yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad busnesau bach a chanolig yn y dyfodol:

> "there were quite a few SMEs, actually, in this initial pilot phase, but again it's much harder for them, typically, unless there's already a relationship between the providers and the SME. It's much harder for SMEs to get up to speed in a very short time frame. So, if we were able to mainstream this and have longer term certainty about the funding for this sort of provision, I think it would be easier to be able to get at SMEs."[40]

**50.** Cyfeiriodd llawer o randdeiliaid at sicrhau bod gan gyflogwyr amser i gynllunio ac ymgysylltu â'r rhaglen a bod angen sefydlogrwydd a chyllid tymor hwy. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r dyraniadau ariannol ar gyfer 2020/21,[41] ac mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod CCAUC wedi gofyn yn ddiweddar i sefydliadau sy'n cynnig gradd-brentisiaethau gyflwyno data monitro ar gyfer carfan 2020/21 dros dri chyfnod cyfeirio, gyda dyddiad terfynol o fis Awst 2021. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad gan ddarparwyr o effaith Covid-19 ar gadw prentisiaid yn 2020/21 o 2018/19 a 2019/20, a chynlluniau recriwtio prentisiaid newydd yn 2020/21. Yn ôl cylchlythyr CCAUC, diben hyn oedd nodi heriau o fewn y sector, a llywio ei ymateb.[42] Mae'r angen am sefydlogrwydd a blaengynllunio yn dangos ei bod yn bwysig bod Llywodraeth nesaf Cymru yn gwneud penderfyniadau buan ar ddarpariaeth a chyllid yn y dyfodol.

**51.** Yr ymrwymiad cyllido gwreiddiol ar gyfer cynllun peilot y gradd-brentisiaethau oedd £20 miliwn dros dair blynedd academaidd, ac roedd £8 miliwn wedi'i wario yn y ddwy flynedd gyntaf. Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn academaidd olaf, dim ond £4 miliwn y mae CCAUC wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru hyd yma, ac mae wedi gorfod dyrannu £5 miliwn arall o'i chyllideb ei hun. Mae hynny'n gyfanswm o £9 miliwn o wariant (sydd £3 miliwn yn brin o'r ymrwymiad gwreiddiol o £20 miliwn, a'r angen i CCAUC gwtogi ar yr arian y mae'n ei wario ar ei flaenoriaethau eraill).

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn gwireddu ei hymrwymiad gwreiddiol i roi £20 miliwn i'r cynllun peilot gradd-brentisiaethau dros 3 blynedd; nodi a fydd yn rhoi cyllid ychwanegol i CCAUC i wneud iawn am y £5 miliwn y mae'r Cyngor wedi gorfod ei dynnu oddi wrth flaenoriaethau eraill

[40] Paragraff 30, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[41] https://www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2020/08/W20-20HE-HEFCW-Funding-allocations-2020_21.pdf

[42] https://www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2020/09/W20-28HE-Degree-Apprenticeships-2020_21-Monitoring-Report.pdf

yn y flwyddyn academaidd hon; nodi a fydd angen i'r cyllid ar gyfer y gradd-brentisiaid sy'n parhau ddod o gymorth grant cyffredinol CCAUC; a nodi ei chynlluniau a'i hamserlenni ar gyfer cytuno ar yr ymrwymiad cyllid ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n cofrestru ar radd-brentisiaethau yn y dyfodol.

## Dim sefyllfa gydradd i ddarparwyr prentisiaethau

**52.** Mynegodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru[43] a Cholegau Cymru[44] bryderon ynghylch y gwahaniaeth rhwng y model cyllido a ddefnyddir ar gyfer gradd-brentisiaethau, lle mae CCAUC yn gweinyddu ei broses gymeradwyo ei hun ar gyfer darparwyr, a'r broses gaffael gystadleuol a ddefnyddir i ddyfarnu contractau i ddarparwyr prentisiaethau nad ydynt yn arwain at radd. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod 'cryn annifyrrwch' ymhlith ei aelodau nad oedd angen dilyn yr un lefel o gontractio cadarn, a dywedodd Colegau Cymru nad oedd esboniad boddhaol am y gwahaniaeth. Roedd y rhanddeiliaid yn dadlau nad oes chwarae teg i ddarparwyr prentisiaethau yn y sectorau addysg uwch a bod proses CCAUC yn ymddangos yn llai trylwyr, er bod CCAUC yn gwadu hyn, gan ddweud nad yw'r niferoedd hyd yma wedi rhagori ar yr arian sydd ar gael, ac felly nad oes angen proses gystadleuol.

**53.** Mewn tystiolaeth lafar dywedodd David Blaney y byddai'n well gan CCAUC ddefnyddio ei brosesau prif ffrwd o gyllid ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol na'r model caffael a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ac a ddefnyddir ar gyfer prentisiaethau ar lefel is. Heriodd ddadl Llywodraeth Cymru bod caffael yn gyfle i reoli'r hyn roeddent yn ei brynu: "I don't think you need to procure to be able to determine what it is that you're actually putting public money into; you can do that through funding."[45] Dywedodd ei bod yn bosibl o hyd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau cyflenwi, a bod model cyllido CCAUC yn fwy costeffeithiol:

> "…if institutions don't deliver what we've funded them for, we take the money back afterwards. We have well-established monitoring and audit machinery to do that, and that's a lot more cost-effective than a procurement process that has a massive administrative overhead. So, we would rather not do that. This bidding process was kind of halfway between the two, but if we were going to do this in a more expanded way then we would want to mainstream into our normal processes, which is much more efficient."[46]

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig

[44] Tystiolaeth ysgrifenedig

[45] Paragraff 21, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[46] Paragraff 19, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

**54.** Ar 12 Chwefror 2020, bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch problemau cyson gyda'r prosesau caffael ar gyfer rhaglen cymorth cyflogadwyedd Gweithio dros Gymru. Oherwydd y problemau a achoswyd gan yr heriau blaenorol hynny i gaffael, rhaid gofyn ai hwn yw'r dull gorau o hyd ar gyfer dyfarnu contractau i ddarparwyr prentisiaethau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gyfiawnhau cadw dau fodel cyllido gwahanol, a rhoi rhesymau dros barhau â'r model caffael ar gyfer dyfarnu contractau i ddarparwyr prentisiaethau; nodi sut mae hyn yn gydnaws â chael llwybrau dysgu cydlynol o Lefel 2 i Lefel 6 a sut y bydd caffael y ddarpariaeth brentisiaethau newydd yn mynd i'r afael â hyn; a rhoi sicrwydd bod y dull contractiol yn ddibynadwy ac yn effeithiol, gan gynnwys bod gwersi wedi'u dysgu o ddod â phroses gaffael Cymorth Swyddi Cymru i ben.

## Costau gradd-brentisiaethau – a yw'r model cyllido yn gynaliadwy?

**55.** Daeth cyllido a chostau gradd-brentisiaethau i'r amlwg fel mater arwyddocaol, ond ni chafodd y Pwyllgor lawer o eglurder am gostau gradd-brentisiaethau o gymharu â phrentisiaethau eraill o'r dystiolaeth a gasglwyd, ac oherwydd y pandemig ni chafodd gyfle i holi'r Gweinidog am hyn. Yn fras, dadleuodd y sector addysg uwch bod y ffi o £27,000 am bob prentisiaeth y mae CCAUC yn ei darparu (sy'n cyfateb i'r ffioedd a godir ar fyfyriwr israddedig ar gwrs gradd traddodiadol) yn adlewyrchu'r costau darparu. O ran y fframweithiau gradd-brentisiaethau presennol a gynigir, dywedodd Prifysgolion Cymru:

> "The current framework funding levels for degree apprenticeships adequately reflect the cost of delivery and, in value for money terms, compare favourably to the per credit cost of many apprenticeships that result in a level 4 or 5 in engineering."[47]

**56.** Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill, fel Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ac Airbus, yn dadlau eu bod yn sylweddol ddrutach na Phrentisiaethau Uwch. Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru: "In comparison to a Higher Apprenticeship (which costs on average a total £7,500), Degree Apprenticeships are much more expensive (at £27,000)"[48], a dywedodd Airbus fod angen trafod gyda phrifysgolion i herio'r gost safonol o £9,000,[49] gan gyfeirio yma at y gost am bob blwyddyn o gwrs gradd traddodiadol

[47] Tystiolaeth ysgrifenedig

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig

[49] Tystiolaeth ysgrifenedig

o dair blynedd. Ymhelaethodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ar hyn yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, gan ddadlau y dylid costio gradd-brentisiaethau gan ddefnyddio'r Model Costau Gweithgaredd a ddefnyddir eisoes ar gyfer pob prentisiaeth arall ar Lefelau 2-5.

**57.** Pan drafododd y Pwyllgor y cwestiwn a oedd y gyfradd safonol o £27,000 yn cynnig gwerth am arian, dywedodd Bethan Owens o CCAUC mai hwnnw oedd y dull cywir ar gyfer y cynllun peilot o ystyried y costau sefydlu dan sylw, ond ar gyfer model cynaliadwy tymor hir byddai angen edrych ar yr egwyddor o fandio.[50] Tynnodd sylw y gallai rhai gradd-brentisiaethau gostio mwy na £27,000 yn y pen draw.

**58.** Dywedodd yr Athro Julie Lydon o Brifysgolion Cymru wrth y Pwyllgor fod £27,000 yn cymharu'n fras â lefel y buddsoddiad cyhoeddus ar gyfartaledd yn Lloegr, a thynnodd sylw y gallai cyflogwyr yn Lloegr roi arian yr ardoll prentisiaethau i gefnogi'r costau hyfforddi ond na allai cyflogwyr o Gymru wneud hynny.[51]

## Y Model Costau Gweithgareddau

**59.** Esboniodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod Model Costau Gweithgareddau yn cael ei ddefnyddio i gyfrifio cyllid ar gyfer prentisiaethau nad ydynt yn arwain at radd. Honnodd y corff ei fod yn anelu at sefydlu model cyllido teg ar gyfer amrywiaeth o ddulliau darparu o dan yr un fframwaith prentisiaethau, hynny yw gall darparwyr benderfynu darparu'r fframwaith mewn amryw ffyrdd, ond bydd pob un yn cael yr un lefel o gyllid. Rhoddir y cyllid gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â darparwyr, yn seiliedig ar ddadansoddiad o Arolygon Cyllido a gyflwynir gan ddarparwyr.

**60.** Mae'r Arolwg Cyllido yn edrych ar yr oriau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â chost asesiadau cychwynnol; oriau addysgu; asesiad mewnol ac allanol; cymedroli mewnol ac allanol; a darparu Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW). Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y bydd yr ystod o oriau yn amrywio yn ôl y darparwr yn dibynnu ar y fethodoleg darparu, ond y bydd cyllid teg yn seiliedig ar ystod, ac nid dim ond ar gymedr yr oriau. Neilltuir gwerth ariannol i 'Unedau Credyd Cyfwerth' (UCC), ee bydd 10 awr o ddysgu tybiannol yn cyfateb i 1 UCC, a rhoddir gwerth ariannol i'r uned, sef £23.47 ar hyn o bryd. Mae'r enghraifft a roddir gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn dangos sut y gall costau fframweithiau amrywio rhwng lefelau o fewn yr un sector:

[50] Paragraff 183, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[51] Paragraff 184, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

| Fframwaith | UCC | Cyfanswm Gwerth |
|---|---|---|
| Prentisiaeth (L3) Gweithgynhyrchu Peirianneg (Crefft a Thechnegydd) | 718.2 | £16,856 |
| Dadansoddeg Data Prentisiaeth Uwch (L4) | 405.5 | £9,494 |

**61.** Cyfeiriodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru at dystiolaeth anecdotaidd fod fersiwn o'r Brentisiaeth Uwch ym maes Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch (un o'r fframweithiau sector ar gyfer y cynllun peilot gradd-brentisiaethau presennol), sy'n cynnwys dyfarnu cymhwyster HNC ac sy'n para am bedair blynedd, yn cael ei phrisio ar oddeutu £20,000, ac mai dyma'r fframwaith sy'n denu'r mwyaf o arian.[52]

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder i'r Pwyllgor ar gostau gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau eraill mewn meysydd pwnc tebyg.

## Costau Eraill

**62.** Tynnodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru sylw hefyd at y ffaith bod costau eraill yn gysylltiedig â darparu prentisiaethau nad ydynt yn arwain at radd ac nad yw'r costau hynny wedi'u cynnwys yn y Model Costau Gweithgareddau. Dywedodd eu bod yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gostau Corff Dyfarnu (namyn y ffioedd cofrestru), cyflawni gweithgareddau Diogelu, y Ddyletswydd Atal, archwiliadau cydymffurfio Llywodraeth Cymru, costau cofrestru ymarferwyr Cyngor y Gweithlu Addysg, diogelu data a chostau cyflenwi digidol a gofynion eraill Llywodraeth Cymru.[53] Ni fanylwyd ar y gofynion olaf hyn yn y dystiolaeth.

**63.** Dywedodd CCAUC y byddai'n croesawu penderfyniad ar ddull cynaliadwy o gyllido gradd-brentisiaethau sy'n ystyried fforddiadwyedd a'r berthynas â darpariaeth Addysg Uwch arall, yn enwedig darpariaeth ran-amser, a'r lefelau o ffioedd a chymorth cyllid.

**64.** Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru o'r farn y dylai'r arian ar gyfer unrhyw ychwanegiad at nifer y fframweithiau ddod o'r adnoddau addysg uwch presennol. Cyfeiriodd Jeff Protheroe o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru at yr her i Lywodraeth Cymru o gadw cydbwysedd rhwng costau a'r galw, oherwydd bod darparu mwy o brentisiaethau lefel uwch, sy'n costio mwy, yn golygu llai o arian ar gyfer prentisiaethau lefel is, sy'n costio llai. Dywedodd, os darperir mwy o brentisiaethau ar lefel uwch, fod llai o gyfle i bobl

[52] Tystiolaeth ysgrifenedig

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig

symud ymlaen i'r lefel honno."[54] Er mwyn sicrhau cydbwysedd, dywedodd fod angen i Lywodraeth Cymru nodi gwerth am arian a sut y byddai'n cael yr enillion mwyaf ar ei buddsoddiad, a'i bod ond yn iawn, felly, fod pob math o brentisiaethau yn cael eu hariannu ar sail yr un model.[55]

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a defnyddio model costio sy'n gyson ar gyfer yr holl ddarpariaethau prentisiaeth o brentisiaethau sylfaen i radd-brentisiaethau ac sy'n adlewyrchu amrywiadau yng nghostau cyflwyno ar draws gwahanol lefelau a phynciau.

[54] Paragraff 345, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[55] Paragraff 346, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

# 8. Recriwtio ac Ehangu Mynediad

**65.** Roedd bron pob ymatebydd i'r ymgynghoriad yn cydnabod yr heriau sy'n gynhenid mewn ehangu mynediad i'r gradd-brentisiaethau ar y cynllun peilot, ond tynnwyd sylw cyson at ddwy ystyriaeth bwysig o ran y cynllun peilot. Yn gyntaf, bod y dewis o fframweithiau yn golygu bod rhagfarn strwythurol yn y cynllun peilot tuag at greu anghydbwysedd rhwng y rhywiau, oherwydd y ffocws ar sectorau sydd, yn draddodiadol, yn rhai dynion yn bennaf, ac yn ail fod cyflogwyr i raddau helaeth yn rheoli'r gradd-brentisiaid a gaiff eu recriwtio yn yr un ffordd ag y maent yn rheoli eu prosesau recriwtio ehangach.

**66.** Fodd bynnag, roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn dadlau bod gan y rhai sy'n darparu prentisiaethau heb radd dargedau heriol i'w cyrraedd o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu contractau. Argymhellodd CCAUC na ddylid gosod targedau yn seiliedig ar nodweddion personol, gan nodi bod mwyafrif y prentisiaid a gafodd eu recriwtio hyd yma yn staff presennol, a hefyd bod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu bod gweithwyr fel arfer yn amharod i ddatgan anableddau i'w cyflogwr. Dadleuodd Prifysgolion Cymru hefyd fod y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn welliant ar y rhai sy'n cael eu recriwtio i'r un pynciau ar hyd llwybrau traddodiadol. Dywedodd Colegau Cymru nad oedd yn glir pa fentrau penodol, os o gwbl, a gynhaliwyd i geisio cyflawni unrhyw elfen o gydbwysedd rhwng y rhywiau, ac os ymgymerwyd â mentrau o'r fath, nad oeddent wedi gweithio'n dda.[56] Dywedodd mai dim ond 30 o'r 145 o brentisiaid oedd yn fenywod ac nad oedd hynny'n syndod yn yr amgylchiadau hyn. Galwodd Colegau Cymru ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y rhwydwaith darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

**67.** Dywedodd Rob Simkins, Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ar y pryd, fod sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn hanfodol i'r ymdrechion i ehangu mynediad.[57] Dywedodd hefyd fod angen targedau pe byddai rhagor o radd-brentisiaethau yn cael eu cyflwyno:

> "…there needs to be some sort of target or quota to make it more intersectional, because, at the moment, the demographics are not fantastic in this respect. So, anything that we can be doing that's deliberately targeting those groups is beneficial."[58]

---

[56] Tystiolaeth ysgrifenedig

[57] Paragraff 111, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[58] Paragraff 33, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

**68.** Darparodd CCAUC ystadegau nas cyhoeddwyd o'r blaen yn ymwneud â nodweddion personol y rhai sy'n rhan o'r cynllun peilot, ac ystadegau yn ymwneud â chyflogwyr. Mae'r prif ffigurau ar gyfer y 380 o brentisiaid newydd a pharhaus ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 yn cynnwys:

- Cofrestrodd 58 y cant ar y Fframwaith Digidol a 42 y cant ar y Fframwaith Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch, a chofrestrodd 155 o brentisiaid ar y llwybr Peirianneg Meddalwedd (36 y cant o'r cyfanswm);
- Roedd 20 y cant o radd-brentisiaid yn siarad Cymraeg;
- Roedd 20 y cant yn 21 oed ac iau;
- Roedd 17 y cant yn fenywod;
- Dywedodd 7 y cant fod ganddynt anabledd;
- Roedd 3 y cant yn dod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- Roedd 39 y cant o gyflogwyr yn y sector gweithgynhyrchu;
- Roedd 20 y cant o gyflogwyr yn fusnesau bach a chanolig; ac
- Roedd 295 o radd-brentisiaid eisoes yn gweithio (78 y cant) ac 85 yn weithwyr newydd (22 y cant).

**69.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai fod rhywfaint o anghydbwysedd o ran cydraddoldeb yn y cynllun peilot gradd-brentisiaethau oherwydd sectorau cyflogaeth y ddau fframwaith peilot, er eu bod hefyd yn gweld cydbwysedd calonogol o ran y rhywiau yn y garfan brentisiaethau Gwyddor Data yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gallai ehangu'r gradd-brentisiaethau i sectorau sydd yn draddodiadol yn denu mwy o fenywod, fel iechyd a gofal cymdeithasol er enghraifft, gael rhywfaint o effaith buan ar y dangosyddion cyffredinol o ran y rhywiau, ond ni fyddent yn datrys yr anghydbwysedd dwfn rhwng y rhywiau mewn rhai sectorau cyflogaeth.

**70.** Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor daeth i'r amlwg mor bwysig oedd mynd i'r afael â chydbwysedd rhwng y rhywiau yn llawer cynharach, mewn ysgolion, a thrwy sicrhau bod y cyngor a'r arweiniad cywir ar gael i hybu ymdrechion i ehangu mynediad. Dywedodd Dr David Blaney o CCAUC: "We have to get the independent advice and guidance machinery in Wales properly resourced and able to do this."[59]

[59] Paragraff 80, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

**71.** Dywedodd Dr Blaney hefyd nad oedd cymhelliant i ehangu mynediad i bobl â nodweddion gwarchodedig, er bod CCAUC yn monitro data ar nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r cynllun peilot. Sicrhawyd y Pwyllgor y byddai sefyllfa bolisi fwy diogel a chyllid wedi'i brif ffrydio ar gyfer rhaglen gradd-brentisiaethau yn y dyfodol yn golygu y byddai modd cymhwyso cymhellion cyllido er mwyn ehangu mynediad.[60]

**72.** Dywedodd Airbus fod ehangu mynediad yn y sector peirianneg yn heriol iawn, a'i fod yn gorfod gwneud ymdrech enfawr a defnyddio llawer o gyllid i godi ymwybyddiaeth.[61] Tynnodd Gavin Jones o Airbus sylw at waith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru i hyrwyddo STEM mewn ysgolion a darparu adnoddau STEM, a phwysleisiodd yr angen am weithgaredd cydgysylltiedig:

> "whatever wonderful activities we've got, they tend to be uncoordinated. Whilst as good as they are, it's almost like chucking gravel into a huge lake rather than putting a big boulder in there and creating a wave; lots of good activity but it's not co-ordinated.[62]

**73.** Dywedodd Milly Blenkin o GoCompare y byddai'n ddefnyddiol iawn pe byddai cyllid yn cael ei gymeradwyo'n gynnar ar gyfer gradd-brentisiaid er mwyn ceisio ehangu mynediad. O'u 12 o radd-brentisiaid roedd 5 yn fenywod, ac fe'u hyfforddwyd fel llysgenhadon STEM a allai wedyn fynd i ffeiriau gyrfaoedd a gweithdai i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes STEM a thechnoleg.[63] Dywedodd hefyd fod addysgu athrawon am radd-brentisiaethau yn hanfodol, gan nad oedd llawer o'r athrawon a gyfarfu mewn ffeiriau gyrfaoedd yn gwybod am y cyfle hwn a'i fanteision i'w disgyblion.

**74.** Dywedodd Cerith Rhys Jones o'r Brifysgol Agored y byddai ystod ehangach o fframweithiau a llwybrau clir yn helpu i ehangu mynediad:

> "…os ŷch chi'n ehangu'r nifer o fframweithiau sydd ar gael, a hefyd yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu gweld llwybr clir o lefel isel i lefel mwy uchel, a gweld sut mae'r dysgu yna yn mapio ar draws, mae hwnna hefyd yn mynd i helpu o ran cynyddu ac ehangu mynediad i brentisiaethau gradd."[64]

**75.** Roedd tystiolaeth lafar Estyn i'r Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at y pwysigrwydd o gael digon o fodelau rôl gan grwpiau a dangynrychiolir er mwyn annog pobl i

[60] Paragraff 66, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 27 Chwefror 2020

[61] Paragraff 209, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[62] Paragraff 217, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[63] Paragraff 213, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[64] Paragraff 21, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

gymryd rhan, ac er enghraifft i fynd i'r afael â rhwystrau mewn rhai cymunedau lle mae prentisiaethau'n cael eu hystyried yn llai gwerthfawr na'r llwybr academaidd mwy traddodiadol.[65]

**76.** Roedd y dystiolaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[66] a Chomisiynydd y Gymraeg[67] yn cyfeirio at brinder darpariaeth Gymraeg a bod angen rhagor o ddata. Mae hwn yn fater cyffredinol yn y rhaglen brentisiaethau ac yn debygol o fod yn berthnasol i radd-brentisiaethau, yn ôl y Comisiynydd. Dywedodd, heblaw'r 15 y cant o siaradwyr Cymraeg sy'n astudio gradd-brentisiaethau, nad oedd digon o wybodaeth i ddangos i ba raddau yr oeddent yn cwblhau'r prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly'n cynnal ac yn datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er bod CCAUC yn gofyn cwestiynau i ddarparwyr am ddarpariaeth Gymraeg, fod y "cyflawniad wedi bod yn siomedig (os nad hyd yn oed yn siomedig iawn)." Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn ychwanegol at y cwestiynau strategol pwysig am ddyfodol gradd-brentisiaethau, fod "cwestiynau amlwg i'w hystyried er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a dwyieithrwydd yn cael eu hystyried yn llawn yn y cynlluniau hyn yn y dyfodol."[68]

**77.** Tynnodd y Comisiynydd sylw at Gynllun Gweithredu Addysg Cyfrwng Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n amlinellu'r angen i fapio'r ddarpariaeth Gymraeg gyfredol a nodi meysydd lle dylid datblygu fframweithiau newydd. Mae cynllun gweithredu 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20[69] yn cyfeirio at gynllun gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel yr allwedd i wella darpariaeth, ond dywedodd y Comisiynydd nad "yw'n glir hyd yma beth fydd traweffaith yr ymrwymiadau hyn ar niferoedd sy'n astudio prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, nac ychwaith beth fydd effaith hyn ar radd-brentisiaethau."[70]

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu neu gomisiynu strategaeth ar gyfer ehangu mynediad at radd-brentisiaethau ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

[65] Paragraff 314, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig

[67] Tystiolaeth ysgrifenedig

[68] Tystiolaeth ysgrifenedig

[69] https://llyw.cymru/cymraeg-2050-cynllun-gweithredu-strategaeth-y-gymraeg-2019-i-2020?_ga=2.50071782.1183143765.1604391468-1609486826.1534338415

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd a) yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch sicrhau bod gradd-brentisiaethau yn rhoi ysytriaeth lawn i'r Gymraeg a dwyieithrwydd, a b) yn casglu data digonol am radd-brentisiaethau a gwblhawyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

# 9. Ymgysylltu â Dysgwyr a Llais Myfyrwyr

**78.** Cyfeiriodd Ben Kinross o Gymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid at arfer da yn rhannau o'r DU a gwledydd Ewropeaidd eraill wrth sicrhau bod gan brentisiaid lais yn yr un modd â dysgwyr eraill, ac y dylai sefydliadau ariannu a rhoi adnoddau i undebau myfyrwyr i wneud hynny.[71] Dywedodd Rob Simkins o UCM Cymru fod Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid bellach yn aelod o 'deulu' UCM, a bod pethau'n teithio i'r cyfeiriad cywir o ran bod sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod llais gan fyfyrwyr. Dywedodd Rhys Davies o'r Brifysgol Agored hefyd wrth y Pwyllgor ei fod yn ystyried sut i gael adborth gan fyfyrwyr a chael mwy o lais i fyfyrwyr o ran cyflwyno modiwlau ar-lein.[72]

[71] Paragraff 51, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[72] Paragraff 55, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

# 10. Hyrwyddo a Marchnata Cyfleoedd

**79.** Dywedodd Estyn nad oedd gradd-brentisiaethau yn cael eu hysbysebu'n eang ac “felly prin yw'r bobl y tu allan i gyflogwyr a darparwyr sy'n cyflwyno'r rhaglenni sydd ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohonynt.” Dywedodd y “collwyd y cyfle i ail-lansio'r cynnig prentisiaethau yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y rhaglen radd” a bod hwn hefyd “yn gyfle a gollwyd i ddangos yn glir pa lwybrau mynediad a dilyniant sydd ar gael i ddysgwyr”,[73] er bod Estyn hefyd yn cydnabod nad oedd yr ystod gyfyng o radd-brentisiaethau sydd ar gael yn helpu wrth farchnata'r llwybr gradd-brentisiaethau.[74] Argymhellodd Estyn fod recriwtio yn cael ei ddefnyddio'n rhagweithiol i ehangu cyfranogiad.

**80.** Dywedodd CCAUC hefyd nad oedd y cynllun peilot gradd-brentisiaethau wedi ei hyrwyddo'n eang, a dywedodd y byddai adolygiad o rôl ac effeithiolrwydd Porth Sgiliau Busnes Llywodraeth Cymru, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor ar brentisiaethau, a chyfle i gyflogwyr gofrestru diddordeb, yn ddefnyddiol.[75] Dywedodd CCAUC hefyd y gallai cyfleoedd i gynyddu ymgysylltiad gael eu gwella pan fydd Gwasanaeth Swyddi Gwag Prentisiaethau Llywodraeth Cymru ar-lein, gan ddweud y gallai hwn fod yn gyfle i hyrwyddo gradd-brentisiaethau, ac integreiddio â Gwasanaeth Paru Prentisiaethau Gyrfa Cymru.[76]

**81.** Dywedodd CCAUC fod gan Lywodraeth Cymru ddulliau cyfathrebu a marchnata sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i brentisiaethau, a'i bod yn bwysig bod gradd-brentisiaethau yn rhan o'r fframwaith hwn. Mae am weld Llywodraeth Cymru yn eu hyrwyddo fel rhan o ddull cydgysylltiedig o hyrwyddo prentisiaethau yn gyffredinol. Awgrymodd CCAUC hefyd y gallai fod o fudd i integreiddio gradd-brentisiaethau yn well yng Ngwobrau Prentisiaeth Llywodraeth Cymru: “This could demonstrate an integrated approach to apprenticeship policy planning and highlight excellence in the sector.”[77]

**82.** Dywedodd CCAUC hefyd y dylai cynnydd yn y cyfraddau cyfranogi yn Worldskills helpu i godi proffil sgiliau lefel uwch a gwella'r gydnabyddiaeth a

[73] Tystiolaeth ysgrifenedig
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig

roddir iddynt, gan gefnogi twf economaidd. Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd Gyrfa Cymru wrth ddarparu cyngor ac arweiniad mewn ysgolion.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer hyrwyddo gradd-brentisiaethau sy'n cynnwys allgymorth i athrawon ac ysgolion ar y cyfleoedd a gynigir gan radd-brentisiaethau, a hefyd sicrhau bod y wybodaeth a'r arweiniad o ran gyrfaoedd yn cynnwys gradd-brentisiaethau.

# 11. Sicrhau ansawdd ac ardystio

**83.** Mae ansawdd gradd-brentisiaethau yn cael ei gynnal fel rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru, gydag adolygiadau'n cael eu comisiynu gan sefydliadau bob chwe blynedd. Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd sy'n goruchwylio'r system sicrhau ansawdd. Pan fydd yn adolygu sefydliad, nid yw'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn archwilio nac yn arsylwi ar yr addysgu mewn prifysgolion – mater i sefydliadau unigol yw cynnal safonau academaidd trwy ddefnyddio eu dulliau a'u prosesau eu hunain. Ar yr un pryd ag y mae CCAUC yn ei gwneud yn ofynnol i adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gael ei gynnal bob chwe blynedd, mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau gyflwyno adroddiad sicrwydd blynyddol i CCAUC, sy'n nodi materion mewn perthynas â sicrhau ansawdd.

**84.** Y dull pwysicaf o gynnal safonau addysg uwch yn y DU yw'r system o adolygiad gan gymheiriaid a gaiff ei wneud gan academyddion allanol, arbenigwyr allanol a myfyrwyr. Er enghraifft, gellir adolygu pa mor effeithiol yw rhaglenni gradd mewn prifysgol unwaith bob pum mlynedd, a bydd yr adolygiad fel arfer yn cael ei gynnal gan banel o academyddion a fydd yn cynnwys cynrychiolydd o blith y myfyrwyr ac o leiaf un uwch academydd allanol.

**85.** Roedd tystiolaeth Estyn yn benodol yn cyfeirio at y gwahaniaeth yn y system sicrhau ansawdd ar gyfer gradd-brentisiaethau. I bob pwrpas, y prifysgolion sydd yn sicrhau ansawdd safonau academaidd eu gradd-brentisiaethau eu hunain, ond Estyn sydd yn arolygu Prentisiaethau Uwch, er eu bod ar yr un lefel â dwy flynedd gyntaf o gwrs gradd.

**86.** Archwiliodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Estyn ac eraill yn y sector addysg bellach am y gwahaniaeth hwn yn y prosesau sicrhau ansawdd. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Estyn yn galw am weithgarwch "clir a strwythuredig yn y gwaith, gan gynnwys ymweld â dysgwyr yn rheolaidd yn eu gweithleoedd, i gynnal asesiad yn y gwaith, a neilltuo mentor yn y gweithle."

**87.** Dywedodd hefyd: "Mae gan sefydliadau addysg uwch arbenigedd mewn cynllunio a chyflwyno cyrsiau gradd ond â llai o brofiad o gyswllt â chyflogwyr a dysgwyr yn y gweithle ar gyfer yr elfen dysgu yn y gwaith."[78] Roedd Prifysgolion Cymru yn teimlo'n gryf iawn nad oedd hynny'n wir, a bod ganddyn nhw, er enghraifft, drwy ymchwil gymhwysol, lawer iawn o gyswllt â chyflogwyr, a bod nifer o ddarlithwyr prifysgol yn arfer gweithio yn y maes yr oeddent yn ymchwilio

[78] Tystiolaeth ysgrifenedig

iddo. Gwahoddwyd Estyn i roi tystiolaeth lafar, ac ar 12 Mawrth eglurodd Jassa Scott safbwynt Estyn, gan ddweud ei fod yn cydnabod hanes sefydliadau Addysg Uwch o weithio gyda chyflogwyr, ond:

> "…an apprenticeship is a certain way of delivering something—it's got a tradition, it's got a history, and it is very much about that very clear integration. It's someone who's employed in a job, and that on and off-the-job training is integrated very tightly within it. So, I think it was just a reflection that that particular exact model of delivery is newer for higher education. That doesn't mean that they can't draw on that extensive experience they've got of engaging with employers across other areas, but I think it's also important to learn from that delivery of apprenticeships across the other levels to ensure that that learning, in terms of how we deliver that integrated model of on and off-the-job learning—it comes together. So, that was where we were coming from, really."[79]

**88.** Dywedodd Jassa Scott o Estyn fod lle i 'feddwl ar y cyd' wrth sicrhau ansawdd ac arolygu. Cyfeiriodd Mark Evans, Arolygydd Estyn, at broblemau wrth recriwtio aseswyr â chymwysterau addas ar gyfer prentisiaethau lefel uwch, ac awgrymodd wrth y Pwyllgor y gallai fod cyfle i gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ddefnyddio'r sgiliau presennol sydd ganddynt yn eu sefydliadau a chylchdroi'r staff hynny yn ôl yr angen i ymgymryd â hyfforddiant neu asesiad, nid o fewn eu cwmni eu hunain, ond o fewn ardal ddaearyddol o bosibl, i gadw'r costau i lawr ac i sicrhau bod dysgwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.[80]

**89.** Dywedodd CCAUC wrth y Pwyllgor ei fod yn gweithio ar gomisiynu adolygiad o ansawdd datblygiadol gradd-brentisiaethau i ddarparu cyfres o argymhellion i'w cyflawni yn y dyfodol. Gwneir hyn gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (mae'r Pwyllgor yn deall nad yw Estyn yn ymwneud â hyn bellach) a bydd yn edrych ar sut mae'r ddarpariaeth yng Nghymru yn mynd i'r afael â datganiad Nodweddion yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau.[81] Roedd disgwyl iddo gyflwyno adroddiad ym mis Mawrth 2021.[82]

**90.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd CCAUC hefyd ei fod yn disgwyl sicrwydd bod dysgu'r prentisiaid yn cael ei gefnogi. Soniodd nad tystysgrif prentisiaeth a ddyfernir, ond cymhwyster a ddyfernir gan y darparwr Addysg

---

[79] Paragraffau 329-330, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[80] Paragraff 365, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Mawrth 2020

[81] https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/quality-code/characteristics-statement-apprenticeships.pdf?sfvrsn=12dac681_8

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig

Uwch. Nid yw hyn yn cyd-fynd â phrentisiaethau ar lefelau is, a galwodd CCAUC am fwy o eglurder.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno tystysgrif gradd-brentisiaeth, a ddyfernir gan Awdurdod Ardystio Prentisiaethau Cymru, a fyddai'n sicrhau bod y radd-brentisiaeth wedi cwrdd â'r holl ofynion hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith ynghyd â'r gofynion academaidd. Dylai ategu tystysgrif gradd y sefydliad ei hun.

# Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **27 Chwefror 2020** | **Dr David Blaney,**<br>Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>**Bethan Owen,**<br>Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>**Yr Athro Julie Lydon OBE,**<br>Prifysgolion Cymru<br>**Keiron Rees,**<br>Prifysgolion Cymru<br>**Iestyn Davies,**<br>Colegau Cymru<br>**Matthew Williams,**<br>Coleg Pen-y-bont ar Ogwr<br>**Jeff Protheroe,**<br>Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| **12 Mawrth 2020** | **Rob Simkins,**<br>Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru<br>**Ben Kinross,**<br>Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid<br>**Cerith Rhys Jones,**<br>Y Brifysgol Agored yng Nghymru<br>**Rhys Daniels,**<br>Y Brifysgol Agored<br>**Gavin Jones,**<br>Airbus<br>**Milly Blenkin,**<br>Grŵp GoCo<br>**Jassa Scott,**<br>Estyn<br>**Mark Evans,**<br>Estyn |

# Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **01** | Prifysgol De Cymru |
| **02** | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd |
| **03** | Grŵp Colegau NPTC |
| **04** | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| **05** | CMI |
| **06** | Coleg Cambria |
| **07** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **08** | Estyn |
| **09** | CITB |
| **10** | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (cyflwynwyd yn Gymraeg yn unig) |
| **11** | Prifysgol Abertawe |
| **12** | Prifysgolion Cymru |
| **13** | UCM Cymru a GCyP Cymru |
| **14** | Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor |
| **15** | Grŵp BT |
| **16** | Y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| **17** | FSB Cymru |
| **18** | Prifysgol Caerdydd |
| **19** | Newport Wafer Fab |
| **20** | Colegau Cymru |
| **21** | Undeb Prifysgolion a Cholegau |
| **22** | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| **23** | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| **24** | Airbus |

| | |
|---|---|
| **25** | Ymateb pellach gan Estyn |
| **26** | Grŵp SEMTA (bellach yn masnachu fel Enginuity) |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Nodyn o'r Ymweliad â'r Campws Gwyddor Data, y Swyddfa Ystadegau Gwladol | 4 Mawrth 2020 |
| Gradd-brentisiaethau: Crynodeb o'r Gwaith Ymgysylltu | Mawrth 2020 |